

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Astro Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 03 Medi 2025

Dyddiad cyhoeddi: 04 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B– Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C – Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Astro Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 03 Medi 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd y geg addas ar gael yn y practis. Cafodd gwybodaeth am gostau triniaethau a manylion y staff ei harddangos yn y dderbynfia.

Gwelsom staff yn trin cleifion ag urddas a pharch a gwelsom fod polisiâu priodol ar waith. Roedd apwyntiadau ar gael dros y ffôn, WhatsApp ac wyneb yn wyneb ac roedd slotiau brys ar gael bob dydd. Gwelsom fod y wybodaeth yn ddwyieithog ac roedd gwasanaethau dehongli ar gael os bydd angen.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae addasiadau wedi cael eu gwneud i sicrhau bod y lleoliad yn hygyrch.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cafodd adborth gan gleifion ei gasglu a'i adolygu'n rheolaidd
- Cofnododd y staff ragenwau a ffefrir gan y cleifion
- Mynediad da i gael gofal brys.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y lleoliad yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Roedd trefniadau diogelwch tân priodol ar waith, mae pob aelod o'r staff wedi cael ei hyfforddi ac mae'r cyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod y cyfarpar cymorth cyntaf a'r cyfarpar meddygol brys mewn cyflwr da. Roedd polisiâu rheoli meddyginiaethau a diogelu ar waith.

Cafodd cofnodion y cleifion eu cadw'n dda ar y cyfan, ond nid oedd digon o wybodaeth am ddewis iaith a phresgripsiynau. Roedd y lleoliad yn gwneud defnydd o ganllawiau proffesiynol ac yn defnyddio safonau diogelwch lleol er mwyn lleihau risgiau clinigol yn ystod triniaethau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff drysau tân eu cadw ar gau bob amser
- Sicrhau bod dogfennau atebolrwydd cyhoeddus yn fwy gweladwy
- Defnyddio blychau cludo offer diogel wedi'u labelu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynhaliwyd trefniadau storio diogel ar gyfer cyffuriau meddygol
- Roedd yr arweinwyr diogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant hyd at lefel tri
- Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau cadarn ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu da a bod strwythur rheoli clir ar waith.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd. Cafodd y polisïau eu diweddarau'n rheolaidd ac roeddent yn hygyrch i bob aelod o'r staff.

Cafodd y lleoliad ei staffio'n briodol gyda systemau ar waith i sicrhau bod digon yn gweithio yn ôl yr angen. Roedd y gweithdrefnau recriwtio yn briodol, a dangosodd cofnodion y staff gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol. Roedd yr hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, ac roedd system ar-lein yn galluogi'r tîm rheoli i fonitro cynnydd.

Cafodd cwynion eu rheoli'n effeithiol, ac mae prosesau uwchgyfeirio clir ar waith. Roedd y lleoliad yn cymryd rhan mewn gwaith adolygu cymheiriaid ac yn cynnal archwiliadau clinigol yn rheolaidd. Roedd trefniadau ar waith i gyflwyno datganiad blynyddol pan fo angen. Cafodd y staff eu cefnogi o ran eu datblygiad proffesiynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau a gweithdrefnau recriwtio priodol
- Anogwyd adolygiadau cymheiriaid.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaethom ofyn i'r cleifion am eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y lleoliad. Dywedodd y rhan fwyaf (15/16) o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth yn "dda iawn".

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rhagorol tu hwnt..."

"... mae'r staff yn anhygoel ac mae'r driniaeth o'r radd flaenaf."

"... y deintyddion gorau rwyf erioed wedi eu defnyddio."

"Staff ardderchog."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth i gleifion yn ardal y dderbynfa. Roedd hyn yn cynnwys taflenni a phosteri gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, iechyd y geg a'r triniaethau sydd ar gael. Roedd gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a datganiad o ddiben boddhaol, ac roedd copïau o'r ddau ar gael wrth y dderbynfa.

Cafodd gwybodaeth am gostau triniaethau eu harddangos yn yr ardal aros. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Roedd hysbysiadau i'w gweld er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am y camerâu teledu cylch cyfyng sydd ar waith.

Roedd enwau rhai o'r deintyddion a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld y tu allan i'r practis. Roedd ffotograffau ac enwau pob aelod o'r staff i'w gweld y tu mewn i'r practis. Gwnaethom nodi poster ar wahân yn yr ystafell aros gydag enwau, rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a rôl pob aelod o'r staff. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i wneud y poster hwn yn fwy am na allai cleifion weld neu ddarllen y poster ar ei faint cyfredol.

Roedd amseroedd agor a rhif ffôn y practis ynghyd â'i rif ffôn y tu allan i oriau, ei gyfeiriad gwefan a'i gyfeiriad e-bost i'w gweld yn glir ar fynedfa'r practis.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Cytunodd pob un o ymatebwyr holiadur AGIC a atebodd y cwestiwn fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd naw egwyddor graidd ymarfer moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Gwelsom fod cytundeb cyfrinachedd ar waith a oedd wedi'i adolygu gan bob aelod o'r staff. Gallai'r staff ddefnyddio ystafelloedd i ffwrdd o'r cleifion er mwyn cael preifatrwydd i wneud galwadau ffôn cyfrinachol. Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion gael trafodaeth breifat yn y swyddfa neu'r ddeintyddfa wag i drafod manylion cyfrinachol. Roedd drysau cadarn yn arwain i'r ardaloedd clinigol, gan gynnwys pob deintyddfa a oedd yn cael eu cadw ar gau wrth drin cleifion. Dangoswyd camera i ni a gafodd ei ddefnyddio pan oedd claf yn cael sgan CBCT fel y gallai'r clinigwyr weld y claf yn ddiogel. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei fod yn recordio cleifion heb iddynt fod yn ymwybodol o hyn. Cafodd y nodwedd recordio ei hanalluogi ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom adolygu sampl o wyth cofnod cleifion a chadarnhau bod gwybodaeth a oedd yn cynnwys manylion y cleifion a'u hanes meddygol wedi'u cynnwys.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt a chytunodd y rhan fwyaf ohonynt (15/17) bod y gost wedi cael ei hegluro iddynt cyn y driniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Trefnodd y practis apwyntiadau dros y ffôn, yn bersonol a thrwy negeseuon WhatsApp. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cwblhau ffurflen gais am gysylltiad ar wefan y practis. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n effeithiol ar y diwrnod.

Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn aros tua wythnos rhwng pob apwyntiad am driniaeth ond bod modd eu blaenoriaethu'n gynt pe bai angen. Dywedwyd wrthym fod gan y practis apwyntiadau brys ar gael bob dydd a byddai cleifion yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl. Dywedwyd wrthym fod gan y practis weithredwr ffôn y tu allan i oriau sy'n gyfrifol am alwadau brys gyda'r nos ac ar benwythnosau ac am ymateb i negeseuon WhatsApp. Dywedwyd wrthym fod

apwyntiadau ar gael ar ddydd Sadwrn a bod y cleifion yn cael dewis o amseroedd apwyntiadau i weddu i'w hanghenion.

Gallai'r staff yn y deintyddfeydd gyfathrebu drwy ddefnyddio system negeseuon gwib i roi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn cysylltu â chleifion cyn eu hapwyntiad pe bai unrhyw oedi neu roi gwybod iddynt yn uniongyrchol ar lafar pe baent yn bresennol. Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' (15/18) neu'n 'eithaf hawdd' (3/18) cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod gwybodaeth fel y daflen wybodaeth i gleifion a'r posteri i gleifion ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni fod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras ar gais.

Dywedwyd wrthym y byddai dehonglydd yn cael ei drefnu i gleifion sy'n bresennol nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Byddai apwyntiadau yn cael eu cyfleu dros y ffôn i gleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol a byddai gwybodaeth yn cael ei hargraffu ar eu cyfer pan fyddent yn bresennol.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd gan y lleoliad bolisi digonol a chyfredol ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu trin â pharch ac mewn ffordd gyfartal.

Dywedodd pob un o ymatebwyr holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Gwelsom fod addasiadau rhesymol ar waith yn y practis i sicrhau bod y lleoliad yn hygyrch i bawb. Roedd y practis ar un llawr gyda chyfleusterau toiled hygyrch i gleifion ac roedd breichiau ar bob cadair yn yr ystafell aros.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod ardaloedd allanol a mewnol y practis wedi'u haddurno'n dda ac i'w gweld yn lân. Fodd bynnag, gwelsom fod twll yn y nenfwd uwchlaw blwch trydanol wrth y drws ffrynt. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd i ni fod hyn ar goll o ganlyniad i waith trydanol yn cael ei gynnal ar y diwrnod, cafodd y twll ei gau yn fuan ar ôl yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion am y camau a gymerwyd yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom hefyd nodi bod y swyddfa yn flêr oherwydd ei bod yn cael ei defnyddio fel ystafell storio. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hyn o ganlyniad i ystafell yn cael ei hadnewyddu'n ddeintyddfa yn ddiweddar ac roedd diffyg lle i storio. Rhoddwyd sicrwydd i ni nad oedd yr eitemau trydanol yn yr ystafell yn cael eu defnyddio a byddai'r ystafell yn cael ei chlirio ar ôl cwblhau'r ddeintyddfa.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y swyddfa ei chlirio er mwyn ei galluogi i gael ei defnyddio at y diben bwriadedig.

Roedd ystafell staff ar gael ar gyfer egwylion cinio ac roedd cyfleusterau locer ar gael i'r staff er mwyn storio eu heiddo'n ddiogel. Roedd toiled ar gyfer y staff yn unig ar gael ar y llawr cyntaf a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cyfleusterau newid. Roedd un ardal aros ar gael, a gwelsom fod hyn o faint priodol ar gyfer y lleoliad.

Cawsom ddogfennau yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol. Cafodd y rhain eu harddangos yn yr ystafell staff; fodd bynnag, dim ond y dudalen gyntaf oedd yn weladwy ac nid oedd yn dangos yn glir ei bod yn gysylltiedig ag yswiriant atebolrwydd cyflogwr nac atebolrwydd cyhoeddus.

Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod modd i'r staff weld yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn hawdd.

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a bod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch priodol ar waith ynghyd ag asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd poster gan yr awdurdod gweithredol iechyd a diogelwch wedi'i arddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa lle y gallai pob aelod o'r staff ei weld.

Gwelsom dystiolaeth o gofnod diogelwch nwy blynyddol, Profion Offer Cludadwy ac adroddiad ar osodiadau trydanol pum mlynedd.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth diogelwch tân a gwelsom fod contractau cynnal a chadw digonol ar waith. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r safle a gwnaethom nodi nad oedd angen iddynt gael eu gwasanaethu o fewn eu hoes 10 mlynedd. Gwelsom ddogfennau i ddangos y caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal gan y staff ar ddiffoddwyr tân, goleuadau argyfwng a phrofion larwm tân. Gwelsom arwyddion priodol yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r lleoliad a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân diweddaraf. Gwelsom asesiad risg tân a oedd wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod aelodau o'r staff yn cadw'r drws tân sy'n arwain at y labordy deintyddol ar agor pan ddylid ei gadw ar gau er diogelwch tân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o'r drysau tân yn cael ei gadw ar gau bob amser.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal amgylchedd clinigol diogel a glân. Roedd amserlenni glanhau ar gael er mwyn sicrhau bod y practis yn cael ei lanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod o'r staff. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael ym mhob rhan o'r lleoliad. Dywedwyd wrthym fod cymorth iechyd galwedigaethol priodol ar gael i'r staff pe bai angen.

Roedd ystafell ddynodedig yn y lleoliad ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol. Roedd yr ystafell ddihalogi mewn cyflwr da ac roedd prosesau a chyfarpar priodol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y blychau i gludo offer yn cael eu cau'n ddiogel nac y gellir dweud yn hawdd a oeddent yn lân neu'n fudr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu blychau y gellir eu cau'n ddiogel a sicrhau y cânt eu labelu'n briodol er mwyn dihalogi offer.

Gwelsom fod y cyfarpar dihalogi wedi'i brofi'n rheolaidd a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfrau dyddiol a dywedwyd wrthym bod gwybodaeth yn cael ei lawrlwytho o'r awtoclafau yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a bod y practis wedi cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau bob chwe mis.

Gwelsom fod contract priodol ar waith yn y practis ar gyfer ymdrin â gwastraff a'i waredu, gan gynnwys gwastraff clinigol. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau priodol yn y practis ar gyfer trin sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a'u bod o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith yn y practis, a oedd wedi cael ei adolygu gan y staff.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cofnodi'r meddyginiaethau a roddir i'r cleifion yn eu nodiadau a dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael gwybodaeth am feddyginiaethau a ragnodir.

Roedd gan y practis bolisi argyfyngau meddygol cyfredol. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd gan bob aelod o'r staff a oedd yn cyflawni triniaeth tawelyddu ymwybodol dystysgrif Cynnal Bywyd Brys. Roedd tri aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael gyda phob eitem yno a'u bod yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a oedd ar waith i ddelio ag argyfwng meddygol a gwelsom fod pob eitem ar gael ac yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom y cafodd rasel a siswrn eu storio gyda'r pecyn cymorth cyntaf ond nad oeddent ar gael gyda'r diffibriliwr. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i symud yr eitemau hyn i'w storio gyda'r diffibriliwr er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng meddygol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar bob darn o gyfarpar brys. Roedd y bag argyfwng meddygol yn cael ei gadw yn yr ystafell ddihalogi ac roedd arwyddion ar gael ar y drws.

Gwelsom fod cyffuriau meddygol yn cael eu storio'n ddiogel a chafodd presgripsiynau eu hargraffu yn ôl yr angen. Gwelsom fod cofnodlyfr ar waith i fonitro'r defnydd o feddyginiaethau tawelyddu.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom dystiolaeth bod polisi diogelu cyfredol ar waith yn y practis. Roedd hyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn cynnwys y manylion cyswllt allanol perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol. Roedd arweinydd diogelu dynodedig yn y lleoliad a oedd ganddo fynediad at Weithdrefnau Diogelu Cymru drwy ei ffôn

clwyfar. Roedd y staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant diogelu a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu hyd at lefel briodol. Roedd yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 3, sy'n enghraifft o arfer da.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd dyfeisiau aml dro yn cael eu diheintio'n briodol ac roedd trefniadau ar waith i ymdrin yn briodol ag unrhyw fethiannau yn y system.

Gwelsom ddogfennau gwasanaethu ar gyfer y cywasgydd sydd wedi cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y lleoliad yn cael defnyddio peiriannau melino ac roedd wedi'i gofrestru'n briodol â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i'w defnyddio.

Roedd dogfennaeth ar waith i ddangos bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion cynnal a chadw ar gyfer y cyfarpar pelydr-X, ac roedd rheolau lleol wedi'u harddangos wrth ymyl pob peiriant pelydr-X ym mhob deintyddfa.

Roedd gan y practis gyfleusterau priodol ar waith er mwyn galluogi prosesau tawelyddu ymwybodol i gael eu cyflawni'n ddiogel. Roedd gweithdrefnau addas ar waith i fonitro'r cleifion wrth iddynt gael eu trin ac i ddelio ag argyfyngau meddygol pe baent yn codi.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Gwelsom fod y staff yn dilyn cyngor cyrff proffesiynol perthnasol ac yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth pan fo angen. Roedd y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith i gadw cofnodion cleifion yn ddiogel. Roedd polisi rheoli cofnodion a chydysniad priodol ar waith yn y practis.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion wyth claf. Ar y cyfan, roedd y broses o gofnodi gwybodaeth yn glir ac yn cael ei chynnal i safon dda. Roedd pob cofnod yn cynnwys dynodydd y cleifion, rhesymau dros yr apwyntiad, ac roedd hanes meddygol yn cael ei ddiweddarau yn dilyn pob ymweliad. Gwelsom dystiolaeth fod cyngor ar hylendid y geg wedi cael ei gofnodi lle y bo angen, mae radiograffau wedi cael eu cofnodi, a chafodd opsiynau triniaeth eu nodi. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gellid gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd yr iaith a ffefrir gan y cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson
- Roedd gwybodaeth am y swm, y math o feddyginiaeth a'r cyfarwyddiadau defnydd ar goll mewn presgripsiynau
- Ni chafodd cyngor ar smygu ac alcohol ei gofnodi'n gyson.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith i helpu i redeg y practis. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwnaethom nodi trafodaethau addas am bolisiau, gwisg, nodiadau cleifion a datblygiad proffesiynol parhaus. Anfonwyd copi o gofnodion y cyfarfod i aelodau o'r staff nad oeddent yn bresennol drwy sgwrs grŵp i'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis yn diweddarau polisiau a gweithdrefnau yn rheolaidd. Roedd y polisiau hyn ar gael i'r staff ar y cyfrifiaduron yn y lleoliad.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Yn ogystal â rheolwr y practis, roedd y tîm yn cynnwys naw deintydd, un hylenydd, dwy nyrs gymwysedig, dwy nyrs dan hyfforddiant, un derbynnydd a thri thechnegydd labordy. Gwelsom fod system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio staff asiantaeth yn achlysurol ar gyfer nyrsio a'i fod yn eu defnyddio o gwmnïau asiantaeth deintyddol pan fo angen.

Gwelsom fod polisi recriwtio addas a chyfredol ar waith. Roedd pob aelod o'r staff yn cael llyfryn cyflogai er mwyn sicrhau ei fod yn deall ei rôl benodol a gwybodaeth yn ymwneud â'r practis. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw faterion perfformiad yn cael eu trafod gydag aelodau unigol o staff yn gyfrinachol ac y byddai gweithdrefn ddisgyblu yn cael ei dilyn wedi hynny os bydd angen.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum aelod o'r staff a gwelsom fod tystiolaeth addas ar waith ar gyfer indemniad proffesiynol, archwiliadau iechyd, cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth ac arfarniadau.

Roedd system hyfforddiant ar-lein ar gael i'r staff a ddarparwyd gan y lleoliad ac y gallai'r rheolwyr ei monitro. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant pum aelod o'r staff a gwelsom fod pob un ohonynt wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol a bod tystysgrifau cyfredol ar gael. Roedd gan aelodau o staff a oedd yn cyflawni triniaeth tawelyddu ymwybodol hyfforddiant addas ar waith ac roedd tystysgrifau ar gael. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ychwanegol ar gael pe bai angen y sgîl.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd blwch adborth yn yr ystafell aros ynghyd â ffurflen adborth ar bapur i gleifion ei chwblhau. Gofynnodd y gwasanaeth i gleifion gwblhau adolygiadau ar-lein ar Google, a chafwyd adborth yn rheolaidd drwy ddyfeisiau iPad a oedd ar gael yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod archwiliad yn cael ei gwblhau bob chwe mis. Gwelsom wybodaeth yn cael ei harddangos wrth y dderbynfa am sut mae'r practis wedi dysgu ac wedi gwella o'r adborth.

Roedd polisi cwynion priodol ar waith yn y practis a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Roedd hwn ar gael pan ofynnwyd amdano a chafodd ei arddangos yn yr ystafell aros. Roedd y polisi yn cynnwys amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion, proses uwchgyfeirio pe bai angen, a gwybodaeth gswllt ar gyfer cyrff allanol fel Llais.

Dywedwyd wrthym mai rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion. Pe bai cwyn yn cael ei gwneud am reolwr y practis, byddai'r perchennog yn cymryd cyfrifoldeb. Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr cwynion a gafodd ei adolygu'n rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw themâu cyffredin.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y staff clinigol yn cynnal adolygiadau cymheiriaid agored ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod pynciau. Gwelsom archwiliadau ar gyfer radiograffeg, cadw cofnodion, atal a rheoli heintiau, rhagnodi gwrthfotigau a golchi dwylo. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a bod y canlyniadau yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis wedi gwneud cais i ddefnyddio'r adnodd datblygu matrices aeddfedrwydd a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC); fodd bynnag, nid oedd wedi cael unrhyw wybodaeth eto.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y lleoliad drefniadau ar waith i lunio adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i AGIC os gofynnir.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Dangoswyd camera i ni a gafodd ei ddefnyddio er diogelwch pan oedd claf yn cael sgan CBCT. Dywedwyd wrthym ei fod yn recordio cleifion heb iddynt fod yn ymwybodol o hyn.	Mae recordio cleifion yn ystod sganiau CBCT heb iddynt fod yn ymwybodol yn torri cyfreithiau cydsyniad a phreifatrwydd ac yn torri rheoliadau diogelu all gael effaith negyddol ar ymddiriedaeth claf â lleoliad.	Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a pherchennog y practis.	Analluogwyd y nodwedd recordio ar ddiwrnod yr arolygiad a chawsom sicrwydd na fyddai'r nodwedd recordio yn cael ei defnyddio yn y dyfodol.
Roedd twll oherwydd bod teil nenfwd ar goll uwchben blwch trydanol wrth y fynedfa flaen.	Gall wneud y gwifrau'n agored i lwch neu leithedd, gan gynyddu peryglon tân neu drydan.	Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a pherchennog y practis.	Gosodwyd teil nenfwd ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Astro Dental

Dyddiad yr arolygiad:03 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni chanfuwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Astro Dental

Dyddiad yr arolygiad: 03 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom nodi bod y swyddfa yn flêr oherwydd ei bod yn cael ei defnyddio fel ystafell storio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y swyddfa ei chlirio er mwyn ei galluogi i gael ei defnyddio at y diben bwriadedig.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22 (2)	Roedd hon yn ardal storio dros dro o ganlyniad i gynnal gwaith adeiladu estynedig yn y practis (gwnaethom adnewyddu deintyddfa newydd gan agor trydedd deintyddfa yn y practis). Defnyddio'r swyddfa fel storfa dros dro oedd ein hunig opsiwn er	Emily Brown	Gweithredwyd.

				mwyn cadw eitemau allan o'r golwg ac i ffwrdd o'r cleifion. Mae hyn bellach wedi cael ei glirio ac mae'r swyddfa yn cael ei defnyddio at ei diben.		
2.	Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn bresennol ond nid oedd yn hawdd i'r staff ei adnabod oherwydd dim ond y tudalen gyntaf oedd ar gael.	Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn cael ei arddangos a'i fod yn hawdd i'r staff ei adnabod.	Rheoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998 Rheoliad 5	Er bod hyn ar gael i'r staff yn ddigidol ar iPad y practis, cafodd hyn ei arddangos yn yr ystafell staff a'r ystafell aros drannoeth yr arolygiad.	Emily Brown	Gweithredwyd.
3.	Gwnaethom nodi bod aelodau o'r staff yn cadw'r drws tân sy'n arwain at y labordy deintyddol ar agor pan ddylid ei gadw ar gau er diogelwch tân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o'r drysau tân yn cael ei gadw ar gau bob amser.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22 (4)(a)	Mae arwyddion clir bellach ar y drws sy'n nodi 'drws tân cadwch ar gau' a chynhelir gwiriadau rheolaidd gan y nyrs arweiniol/y tîm rheoli.	Emily Brown	Gweithredwyd.

4.	Gwnaethom nodi nad oedd y blychau i gludo offer yn cael eu cau'n ddiogel nac y gellir eu hadnabod yn lân neu'n fudr yn hawdd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu blychau y gellir eu cau'n ddiogel a sicrhau y cânt eu labelu'n briodol er mwyn dihalogi offer.	WHTM 01-05 Pennod 2, 2.27	Roedd blychau clir â chaead wedi'u labelu gyda marciwr ar gael, ond gwnaethom eu hadnwyddu gyda rhai o'r siop Agillio yn unol ag argymhelliad yr arolygydd. Defnyddir Coch ar gyfer budr a Glas ar gyfer glân.	Emily Brown	Gweithredwyd.
5.	Nodwyd gennym y gellid gwella'r meysydd canlynol: - Nid oedd yr iaith a ffefrir gan y cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson - Roedd gwybodaeth am y swm, y math o feddyginiaeth a'r cyfarwyddiadau defnydd ar goll mewn presgripsiynau	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1)(a)	Roedd dewis iaith eisoes yn cael ei nodi a'i wella yn ein harchwiliad o gofnodion clinigol, a chafodd ei ychwanegu at ein holl dempledi i glinigwyr ym mis Gorffennaf 2024. Mae mathau o feddyginiaethau, cyfarwyddiadau a'u defnydd ynghyd â chyngor ar smygu	Emily Brown	Gweithredwyd ac yn barhaus drwy'r archwiliad clinigol.

- Ni chafodd cyngor ar smygu ac alcohol ei gofnodi'n gyson.

ac alcohol wedi cael eu hychwanegu a chânt eu gwirio yn ein Harchwiliad Clinigol nesaf yn ogystal â chael eu hychwanegu at ein cynnwys sefydlu ar gyfer clinigwyr newydd.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Emily Brown

Teitl swydd: Rheolwr Grŵp JTPD Ltd (Rheolwr cofrestredig Astro Dental)

Dyddiad: 13/10/2025